



Ein cyf/Our ref

Lynne Neagle AC / AM Cadeirydd / Chair
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Rhagfyr 2016

Annwyl Lynne,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am adolygu'r modd y gweithredir adroddiad Adolygiad yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch ichi hefyd am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr sy'n tynnu sylw at rai o'ch canfyddiadau cychwynnol cyn fy sesiwn dystiolaeth ar 12 Ionawr.

Rwy'n ymroddedig i sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc yn cyflawni eu holl botensial ym myd addysg. Roeddwn yn gwbl gefnogol i adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr Athro Donaldson pan gafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2015, ac nid yw fy safbwynt wedi newid. Mae'n rhaid i'n system addysg roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r nodweddion personol y mae eu hangen ar blant a phobl ifanc yn y byd modern, er mwyn eu galluogi i gystadlu a llwyddo er eu lles eu hunain ac er lles Cymru.

Diwygio'r system addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol, a hynny drwy ddatblygu cwricwlwm newydd ac unigryw i Gymru, ynghyd â threfniadau asesu newydd. Byddaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rhaglen i ddiwygio'r maes addysg yn cael ei gweithredu'n dda ac yn brydlon, gan ddysgu o'r hyn sy'n gweithio yng Nghymru a thrwy'r byd. Wrth inni fwrw ymlaen â'r agenda hon, rwy'n benderfynol o sicrhau bod y plentyn yn ganolbwynt i'r cyfan, a hynny wrth ddatblygu cwricwlwm eang, cytbwys, cynhwysol a heriol.

Mae fy ymatebion i'r cwestiynau yn eich llythyr isod:

A oes gan Ysgrifennydd y Cabinet strategaeth i sicrhau bod gweledigaeth Dyfodol Llwyddiannus yn cael ei rhoi ar waith yn llawn yn ymarferol?

Ar 22 Hydref 2015, cyhoeddwyd y cynllun i fwrw ymlaen â *Dyfodol Llwyddiannus – Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes*. Roedd y cynllun yn dangos maint yr her ac yn rhannu honno yn wyth o flociau adeiladu, gan ddangos yr hyn sydd angen ei wneud, pa bryd, a phwy fydd yn rhan o hynny. Dyma'r wyth bloc adeiladu:

- **Ymgorffori pedwar diben** y cwricwlwm yn llawn yn nysgu a phrofiad yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru, ym mha bynnag ysgol neu leoliad addysgol y maent.
- **Creu cwricwlwm newydd** sy'n cwmpasu Meysydd Dysgu a Phrofiad, deilliannau cyflawniad a phwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd.
- **Ymestyn a hyrwyddo profiadau dysgwyr** fel y bydd y cwricwlwm yn gyfoethog yn ogystal â bod yn gynhwysol, cynhwysfawr a chytbwys.
- **Datblygu ein cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd** trwy gynllunio fframwaith cymhwysedd digidol a pharhau i symud ymlaen yn gyflym ar lythrennedd a rhifedd.
- **Galluogi'r Gymraeg i ffynnu** er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n siarad Cymraeg neu'n ei dysgu'n gynnar yn gallu dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y rheini sy'n dysgu'r iaith yn gallu symud ymlaen i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau.
- **Datblygu fframwaith asesu a gwerthuso newydd** sy'n rhoi blaenoriaeth i asesu ar gyfer dysgu ac yn alinio trefniadau asesu â phedwar diben y cwricwlwm a'r deilliannau cyflawniad ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.
- **Meithrin gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr**, gan gynnwys y gallu i fyfyrion ar eu hymarfer eu hunain a'i werthuso, i gynllunio a chreu cwricwlwm sy'n berthnasol, ymestynnol a symbylol ac i gymhwyso egwyddorion ac arferion addysgegol priodol.
- **Sefydlu system atebolrwydd cadarn ac adeiladol** sy'n ategu'r pedwar diben.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae fy swyddogion wedi sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn; mae Rhwydwaith yr Ysgolion Arloesi wedi'i sefydlu; mae ein prif bartneriaid yn cydweithio; ac mae amserlen fanylach wedi'i chyhoeddi i ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Mae pedair elfen allweddol yn rhan o'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Y rhain yw: -

- Elfen 1 – dethol, gwaith cynefino a pharatoi'r Rhwydwaith Arloesi. Bydd y Rhwydwaith Arloesi a phartneriaeth Cymru gyfan yn cytuno ar eu rhaglen waith a fydd yn diffinio'r amserlenni ar gyfer camau 2 i 4.
- Elfen 2 – cynllunio fframwaith ac egwyddorion ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys y cerrig milltir wrth wneud cynnydd a'r deilliannau cyflawni.
- Elfen 3 – datblygu cynnwys pob Maes Dysgu a Phrofiad; gwirio ac adolygu gydag ysgolion eraill ac arbenigwyr ar y cwricwlwm (gan ystyried tystiolaeth ac ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol) – gan ddefnyddio prosesau sicrhau ansawdd cadarn.
- Elfen 4 - Rhagor o waith treialu mewn Ysgolion Arloesi, mireinio pob Maes Dysgu a Phrofiad (gan gynnwys y cwricwlwm a threfniadau asesu), datblygu cymorth (e.e. canllawiau, adnoddau, dysgu proffesiynol) a pharatoi ar gyfer rhyddhau Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae Elfen 1 ar fin dod i ben, ac mae wedi cynnwys datblygu egwyddorion strategol ar lefel uchel er mwyn eu hystyried wrth weithio ar Elfen 2. Bydd gweithgorau i gynllunio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cael eu sefydlu y mis hwn. Bydd hyn yn digwydd ychydig o wythnosau'n hwyrach nag yn yr amserlen wreiddiol, ond mae'n adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi gwrandao ar y sector, wedi dewis rhagor o Ysgolion Arloesi i roi mwy o ehangder o fewn pob Maes Dysgu a Phrofiad, ac wedi sefydlu'r Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu er mwyn dwyn ynghyd arbenigedd rhyngwladol i'n helpu i ddatblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

Gan ddatblygu ar y gwaith hwn a'r cynnydd rydym wedi'i wneud hyd yma, byddaf hefyd yn cyhoeddi ein gweledigaeth a'n cynllun strategol ar gyfer addysg ar ei newydd wedd yng ngwanwyn 2017. Bydd y ddogfen hon yn dangos ein cynlluniau'n glir ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys sut y byddwn yn parhau i weithredu Dyfodol Llwyddiannus.

Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau bod darlun clir o'r hyn y bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn ei olygu mewn gwirionedd i arweinwyr

ysgolion unigol, athrawon a'r gweithlu ehangach, a sut y bydd y gwahanol elfennau i gyd yn plethu â'i gilydd?

Fel y nodwyd gennym yn *Cwricwlwm i Gymru*, rydym yn cynllunio ac yn datblygu ein trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm gydag ymarferwyr yn ganolog i'r gwaith, a hynny drwy Ysgolion Arloesi. Datblygwyd y model ar gyfer gwneud hyn, a chytuno arno, ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Athro Donaldson.

Dechreuodd Ysgolion Arloesi weithio ar gynllun y cwricwlwm yn ffurfiol ym mis Ebrill 2015, ar ôl cyfres fer o ddiwyddiadau cynefino. Hyd yma, mae'r ysgolion hyn a phartneriaid pwysig eraill wedi bod yn ystyried yr egwyddorion a'r opsiynau strategol ar lefel uchel, gan weithio tuag at gael cytundeb ynghylch natur gyffredinol y cwricwlwm newydd. Mae'r rhan hon o'r broses ddatblygu yn hollbwysig, ac mae'r Athro Donaldson ei hun wedi pwysleisio pwysigrwydd peidio â rhuthro yn hyn o beth.

Gwers bwysig a ddysgwyd wrth ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw y gall gymryd amser i ganfod yr opsiynau strategol hyn ar y lefel uchel a chytuno arnynt, ond pan geir y cytundeb hwnnw, mae modd symud ymlaen yn rhyfeddol o gyflym. Fi fyddai'r cyntaf i gydnabod, fodd bynnag, fod y gwaith datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn brosiect llai o beth tipyn na datblygu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu sy'n cyd-fynd â hwnnw. Fodd bynnag, mae rhai elfennau tebyg rhwng y naill broses a'r llall, ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y pethau a ddysgwyd wrth greu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac yn datblygu'r gwaith hwnnw.

Wrth i Elfen 2 fynd yn ei flaen, ac wrth i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ddechrau ymffurfio, byddwn yn symud at gyfnod ymgysylltu newydd er mwyn sicrhau bod ein holl randdeiliaid, gan gynnwys athrawon, arweinwyr a'r gweithlu ehangach, yn deall beth fydd natur debygol y rheini a sut fydd y cyfan yn perthyn i'w gilydd. Gan weithio drwy a chyda'r Ysgolion Arloesi a'r consortia rhanbarthol, byddwn yn rhannu dogfennau ag ysgolion a rhanddeiliaid mor gynnar yn y broses ddatblygu â phosibl. Byddwn yn ceisio'u barn am y strwythurau sy'n cael eu datblygu ar gyfer y cwricwlwm a'r trefniadau asesu, er mwyn i'r cwricwlwm newydd fod yn un sy'n gwir adlewyrchu barn y proffesiwn, ac yn un y mae'r proffesiwn hwnnw yn ei dderbyn. O wneud hynny, bydd cyfle i ysgolion drwy Gymru fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Dim ond un rhan o'n cenhadaeth genedlaethol i ddiwygio addysg yng Nghymru yw diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Heb athrawon da, ni chawn ysgolion da. Dyna pam y bydd ein strategaeth ar ei newydd wedd yn amlinellu'n glir ein cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a chyfraniad pawb at ein cenhadaeth genedlaethol, sef gwella addysg yng Nghymru.

Beth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod rôl yr Ysgolion Arloesi, a'r hyn y mae disgwyl iddynt ei gyflawni, yn ddigon clir?

Er bod y fanyleb a oedd yn cyd-fynd â'r ffurflen gais i fod yn Ysgol Arloesi yn diffinio'n glir, yn gyffredinol, yr hyn a ddisgwylid ganddynt, rwy'n derbyn bod rhai Ysgolion Arloesi wedi teimlo'n ansicr ar adegau ynghylch hynny.

Mae'r model Arloesi yn ffordd newydd o gynllunio'r cwricwlwm ac yn rhoi lefel o gyfrifoldeb ar yr Ysgolion Arloesi eu hunain i arwain ar elfennau o'r broses ddatblygu. O ganlyniad, mae'n ddealladwy ei bod wedi cymryd amser i bawb ddeall eu gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau. Cymerodd amser i symud i ffordd o ddull o weithio o'r brig i lawr ac addasu i ddull sy'n dod yn gynyddol gyd-adeiladol. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr waith caled yr Ysgolion Arloesi a'r cyfraniad gwerthfawr y maent yn ei wneud i ddatblygu cwricwlwm newydd yng Nghymru. Maent yn allweddol i lwyddiant y gwaith hwn.

Rwy'n credu hefyd ei bod yn briodol cydnabod y ffaith bod datblygu'r egwyddorion strategol ar lefel uchel (Elfen 1) yn golygu cryn dipyn o waith, fel ymchwil a thrafod cwestiynau hollbwysig. Nid yw'r math hwn o waith mor amlwg â datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sy'n gynnyrch pendant.

Er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, rydym wrthi'n cynnal gwerthusiad a fydd yn rhoi tystiolaeth am sut y mae model yr Ysgolion Arloesi yn gweithio'n ymarferol a sut y gellid gwella pethau. Mae disgwyl yr adroddiad terfynol ddiwedd 2017. At hynny, bydd y gwerthusiad yn ceisio rhoi adborth ar y pryd ynghylch sut y mae model yr Ysgolion Arloesi yn gweithio yn ystod y cyfnod cynllunio a datblygu.

Wrth inni symud at Elfen 2 yn y broses ddatblygu, sef datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, byddwn yn ystyried ac yn gweithredu ar sail yr hyn a ddysgwyd o Elfen 1, ac yn addasu'r broses yn unol â hynny. Caiff amcanion Elfen 2 eu trafod a'u diffinio ag ymarferwyr y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ystod eu cyfarfod cyntaf ar 17 ac 18 Ionawr 2017. Byddwn yn disgwyl i'r Ysgolion Arloesi deimlo eu bod yn fwy clir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt nag oeddent, o bosibl, yn ystod Elfen 1. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion roi adborth cynnar imi am hyn.

Sut y gall Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y pwysau ar yr Ysgolion Arloesi o ran cynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys lledaenu arfer da neu roi gwybodaeth i ysgolion eraill am hynt y gwaith, yn cael effaith andwyol ar eu hadnoddau addysgu eu hunain?

Roedd y fanyleb a oedd yn cyd-fynd â'r cais i fod yn Ysgol Arloesi yn pennu'r ymrwymiad amser disgwylidig a fyddai ynghlwm wrth fod yn Ysgol Arloesi a'r lefel o gyllid a fyddai ar gael. Rhoddwyd y cyllid hwn yn bennaf i alluogi ysgolion i sicrhau bod trefniadau wedi'u gwneud i ryddhau ymarferwyr am hyd at ddeuddydd yr wythnos i weithio ar gynllunio a datblygu'r cwricwlwm.

Ystyriwyd y ceisiadau i fod yn Ysgolion Arloesi gan Banel Cenedlaethol ac arno gynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol, Estyn a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gofynnwyd i'r Panel ystyried cais pob ysgol a rhoi sylwadau am ba mor addas yr oeddent i wneud y gwaith. Ystyriodd y Panel gapasiti ysgolion i fod yn Ysgolion Arloesi, heb i'r ymrwymiad ychwanegol hwn effeithio'n andwyol ar eu cyfrifoldebau addysgu a dysgu.

Rwy'n cydnabod bod y model Ysgolion Arloesi yn ffordd newydd o ddatblygu cwricwlwm, ac fel y dywedais eisoes, cymerodd amser i bawb allu symud tuag at y ffordd gyd-adeiladol hon o weithio. Er bod y manteision yn golygu ei bod yn fuddiol gwneud hyn, rwy'n deall y gall fod yn anodd mesur a chynllunio'n llwyr at y gwaith. Gyda hynny mewn golwg, pan na fydd modd i Ysgolion Arloesi ddod i gyfarfodydd oherwydd amgylchiadau sy'n eu hesgusodi, mae fy swyddogion wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i fod yn gefnogol a hyblyg.

Mae Ysgolion Arloesi wedi cael eu hannog i roi gwybod yn gyson i ysgolion sy'n bartneriaid iddynt am y cynnydd wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi ceisio barn yr ysgolion sy'n bartneriaid iddynt am faterion penodol a hynny mewn sawl ffordd. Mae gan y consortia rhanbarthol gyfraniad pwysig i'w wneud wrth helpu Ysgolion Arloesi i rannu gwybodaeth, syniadau a'r feddylfryd ddiweddaraf gyda phob ysgol yng Nghymru.

Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sector am y cynnydd o safbwynt cenedlaethol, rydym wedi defnyddio nifer o ffyrdd gwahanol o gyfathrebu, gan gynnwys y wefan, lle cyhoeddwyd naratif cyffredinol ynghylch beth, pam a phryd; amserlen ar gyfer y newidiadau

sy'n cael eu gwneud, a dau esboniad wedi'u hanimeiddio. Rydym hefyd wedi defnyddio Dysg, Twitter, cylchlythyron i randdeiliaid a blog. At hynny, mae'r consortia rhanbarthol wedi cynnal cyfarfodydd ac wedi rhannu gwybodaeth drwy eu dulliau arferol.

Beth yw barn Ysgrifennydd y Cabinet am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion? A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran dwy ffrwd waith gyntaf y Cynllun ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a threfniadau asesu (Dylunio Strategol a Dylunio Lefel uwch?). A ydych yn hyderus y bydd modd rhoi'r argymhellion ar waith o fewn yr amserlenni a nodir?

Roedd Elfen 1 yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar gynllunio strategol. Er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, mae pedwar grŵp o Ysgolion Arloesi wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr o Gymru ac arbenigwyr rhyngwladol i ddatblygu'r elfennau canlynol yn fframwaith y cwricwlwm:

- Asesu a Chynnydd
- Cyfrifoldebau Traws-gwricwlaidd
- Cyfoethogi a Phrofiadau
- Y Dimensiwn Cymreig, Safbwynt Rhyngwladol a Sgiliau Ehangach

Mae'r gweithgorau hyn wedi cyfarfod yn rheolaidd ers cael eu sefydlu ym mis Ebrill 2016. Yn ddiweddar maent wedi llunio a thrafod adroddiadau cynnydd â Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, a roddodd adborth iddynt. Mae aelodau'r Grŵp hwn yn cynnwys ymarferwyr ac arbenigwyr ar y cwricwlwm a threfniadau asesu, a chanddynt arbenigedd Cymreig a rhyngwladol. Yn ogystal â nodi'r y camau nesaf yn y gwaith, mae'r adroddiadau cynnydd hyn yn cynnwys cynigion ar argymhellion i weithgorau Elfen 2 eu hystyried wrth ddatblygu pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Fel y dywedais eisoes, mae gweithgorau Elfen 2 bellach wedi'u cytuno a byddant yn cyfarfod am y tro cyntaf mewn digwyddiad cenedlaethol ar 17 ac 18 Ionawr. Bydd cynrychiolwyr o'r Ysgolion Arloesi, gan weithio â Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol ac Estyn yn cytuno sut i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad canlynol:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd prif bwylais Elfen 2 ar ddatblygu strwythur a chwmpas pob Maes Dysgu a Phrofiad, cyn datblygu'r cynnwys ymhellach yn Elfen 3. Bydd cynlluniau datblygu manwl yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Nid oes newid o'r amserlen tymor hir a nodwyd yn *Cwricwlwm i Gymru*. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, rwy'n rhagweld y bydd rhywfaint o hyblygrwydd i ysgolion wrth benderfynu sut a pha bryd y byddant yn dechrau'i ddefnyddio. Efallai y bydd rhai ysgolion yn barod i ddechrau'r broses bontio hon yn gyflym iawn, tra bydd rhai eraill am gymryd mwy o amser. Os hynny, byddwn yn ystyried a yw'n briodol hepgor neu addasu rhai o ofynion presennol y cwricwlwm, neu'r cyfan ohonynt, er mwyn galluogi i hynny ddigwydd. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd inni ddweud a fydd hynny'n angenrheidiol, ond byddwn yn cadw golwg ar y mater hwn. Fodd bynnag, ein nod yw y bydd y cwricwlwm newydd a'r fframwaith asesu yn cael eu defnyddio yn sail i ddysgu ac addysgu o fis Medi 2021.

Sut y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn gweithio i sicrhau bod pawb yn deall yr hyn y mae angen ei roi ar waith, erbyn pryd ac ym mha ffurf?

Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae hon yn broses ailadroddus. Mae ein cynllun, *Cwricwlwm i Gymru*, yn cynnwys adran o dan bob bloc adeiladu sy'n amlinellu yr hyn y mae angen ei wneud, pa bryd, a phwy sy'n rhan o'r gwaith hwnnw.

Bydd y cynllun cael ei fireinio a'i ddatblygu dros amser. Bydd y wybodaeth hon ar gael drwy ein dulliau cyfathrebu arferol. Bydd ein swyddogion yn gweithio'n agos â'r consortia rhanbarthol i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu ag ysgolion a lleoliadau.

Wrth i'r rhaglen ddatblygu, bydd fy swyddogion hefyd yn parhau i weithio â rhanddeiliaid pwysig eraill er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch y cynnydd a'r camau nesaf.

Sut y byddwch yn monitro cynnydd dros y misoedd nesaf yn arbennig. Hwn yw'r cyfnod y dywedodd yr Athro Donaldson ei fod yn 'gyfnod tyngedfennol iawn' o ran cyflwyno'r broses o gynllunio'r cwricwlwm?

Er mwyn monitro'r cynnydd wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm, mae'r trefniadau llywodraethu canlynol wedi cael eu sefydlu:

- **Y Grŵp Cyngori Annibynnol** – yn cael ei gadeirio gan yr Athro Graham Donaldson – yn rhoi cyngor a sicrwydd arbenigol, annibynnol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a thîm y rhaglen ynghylch cyflawni a'r trywydd sy'n cael ei ddilyn.
- **Y Bwrdd Newid** – yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus – yn goruchwyllo'r modd y mae tair elfen y rhaglen ddiwygio (Dyfodol Llwyddiannus, Addysgu Athrawon Yfory a Dysgu Proffesiynol) yn cael eu cyflawni a'u cydlynu drwy'r sector addysg yn ehangach.
- **Y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol** – yn cael ei gadeirio gan Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen – yn sicrhau ymgysylltu a chyfranogiad amrywiaeth eang o grwpiau buddiant a rhanddeiliaid pwysig.
- **Bwrdd y Rhaglen** - yn cael ei gadeirio gan Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen – yn goruchwyllo'r gwaith o roi'r rhaglen ar waith, yn rheoli ei chyllid, ac yn sicrhau bod penderfyniadau polisi'n cael eu gwneud er mwyn cyflawni.

Bydd gan y grwpiau hyn gyfraniad allweddol i'w wneud wrth fonitro cynnydd y rhaglen dros y misoedd sydd i ddod. Bydd Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, y cyfeiriwyd ato eisoes, hefyd

yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol, gan ystyried y cynigion y mae'r Ysgolion Arloesi yn eu datblygu a rhoi awgrymiadau ar waith datblygu pellach.

At hynny, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â'r consortia rhanbarthol a chynrychiolwyr Estyn i sicrhau bod y broses ddatblygu ar y trywydd iawn yn ystod y cyfnod allweddol hwn.

A allwch chi roi rhagor o fanylion am y modd y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno'n raddol rhwng 2018 a 2021? A fydd gofynion deddfwriaethol gwahanol ar wahanol ysgolion, sy'n golygu y bydd disgyblion yn astudio dau gwricwlwm gwahanol? Sut y bydd hyn yn effeithio ar y cymwysterau y byddant yn astudio ar eu cyfer?

Fel y nodwyd yn *Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes*, yr uchelgais yw y bydd ysgolion a lleoliadau drwy Gymru yn defnyddio'r cwricwlwm newydd yn sail i ddysgu ac addysgu o fis Medi 2021.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2018 a 2021 (y cyfnod anstatudol) ni fydd rheidrwydd i ddefnyddio fframwaith y cwricwlwm newydd. Y bwriad yw y bydd fframwaith y cwricwlwm newydd yn orfodol o fis Medi 2021. Bydd cyfle yn y cyfnod rhwng 2018 a 2021 i ysgolion a lleoliadau ymgyswrtu'r raddol â'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu, a chynllunio ar gyfer eu defnyddio. Bydd yn gyfle hefyd i ymarferwyr ac ysgolion ganfod eu hanghenion cymorth a chymryd rhan mewn dysgu proffesiynol fel y gallant sicrhau'r budd mwyaf o'r trefniadau newydd.

Mae'r amserlen hon hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion a lleoliadau benderfynu sut a pha bryd y byddant yn dechrau defnyddio fframwaith y cwricwlwm newydd. Fel y trefniadau presennol ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sydd ar gael ers mis Medi 2016, bydd cyfle yn ystod y tair blynedd yma i roi adborth am fframwaith y cwricwlwm newydd, er mwyn gallu ei addasu ymhellach cyn ei ddefnyddio'n llawn yn 2021.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwrriad i newid y gyfraith bresennol a fyddai'n arwain at ofynion cyfreithiol gwahanol ar gyfer gwahanol ysgolion wrth roi'r cwricwlwm ar waith rhwng nawr a 2021. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, efallai y bydd rhai ysgolion mewn sefyllfa i ddechrau defnyddio'r cwricwlwm newydd yn gynt na rhai eraill. O ganlyniad, byddwn yn parhau i gadw golwg ar hyn wrth i'r polisi ddatblygu, ac efallai y byddaf maes o law am hepgor neu addasu gofynion y Deddfau Addysg er mwyn galluogi ysgolion i ddefnyddio'r cwricwlwm newydd. Yn rhinwedd fy swydd fel Ysgrifennydd y Cabinet, byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau yn hyn o beth.

Wrth i'r cwricwlwm gael ei ddatblygu, bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos â Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau bod y cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc yn cydfynd â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Beth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei wneud i ddatrys unrhyw densiynau neu gamddealltwriaeth rhwng y safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynghylch a oes angen cwblhau'r fframwaith asesu cyn y gellir datblygu'r cwricwlwm newydd?

Rydym wedi dysgu o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r *Curriculum for Excellence* yn yr Alban, ac o ddiwygio mewn rhannau eraill o'r byd, nad yw ychwanegu pethau ar y diwedd a newid y system fesul darn yn gweithio.

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd a rhaid eu hystyried yn un pecyn, a chydlynu hwnnw'n ofalus. Mae'r cwricwlwm ac asesu, neu ddysgu ac addysgu, yn ddwy ochr i'r un geiniog; mae materion sy'n ymwneud â *chynnwys a strwythur* yn dylanwadu ar y modd y caiff cynnydd ei wneud a'i gynrychioli wrth ddysgu. Byddant yn cael eu datblygu ar y cyd.

Fel rhan o'r gwaith o ddysgu o ddiwygiadau mewn mannau eraill, rwyf wedi creu grŵp o arbenigwyr uchel eu parch ym maes cynllunio'r cwricwlwm ac asesu er mwyn cefnogi a gweithio law yn llaw â Rhwydwaith yr Ysgolion Arloesi. Fel y dywedais eisoes, mae gan aelodau Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu brofiad cenedlaethol a rhyngwladol o ddiwygio addysgol. Eu gwaith yw rhoi gwybodaeth a chynorthwyo i ddatblygu fframwaith y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd; sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cyd-fynd ag egwyddorion *Dyfodol Llwyddiannus*; a chynorthwyo i roi ar waith y diwygiadau arfaethedig yn *Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes*.

Mae Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu wedi gweithio â Grŵp Llywio'r Ysgolion Arloesi, sef grŵp a chanddo gynrychiolaeth o bob un o bedwar gweithgor Elfen 1, ac mae wedi cytuno ar bwysigrwydd datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu law yn llaw â'i gilydd.

At hynny, mae fy swyddogion yn cyfarfod â'r Undebau Llafur yn rheolaidd, ac yn gweithio'n agos â'r consortia rhanbarthol ar bob mater sy'n ymwneud â'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm. Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod am ddatblygiadau drwy'r dulliau hyn a'r dulliau eraill a nodir uchod wrth fwrw ymlaen â'r agenda ddiwygio.

Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r gorau i ddefnyddio trefniadau asesu at ddibenion atebolrwydd ysgolion a'u defnyddio'n hytrach i lywio addysgu a dysgu (fel yr argymhellwyd gan yr Athro Donaldson)?

Mae tua 23 o argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus* sy'n ymwneud ag asesu ac atebolrwydd. Yn allweddol, bydd y trefniadau asesu yn y dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio asesu yn sail ar gyfer gwella addysgu a dysgu. Bydd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn casglu llai o wybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Rwy'n cydnabod bod llawer o waith i'w wneud er mwyn newid pethau yn athronyddol ac yn ymarferol yn y modd yr argymhellodd yr Athro Donaldson, a defnyddio asesu yn sail i addysgu a dysgu yn hytrach nag at ddibenion atebolrwydd ysgolion. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio drwy a chyda'r Ysgolion Arloesi a'n grwpiau o arbenigwyr er mwyn bwrw ymlaen â hyn. At hynny, byddant yn gweithio i ganfod ffyrdd o newid yr argraff fod y system bresennol yn effeithio ar gapasiti ysgolion i fod yn arloesol, a hyd yn oed i gyflawni eu gwaith fel Ysgolion Arloesi.

Beth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod y cwricwlwm a'r rhaglenni dysgu proffesiynol yn cael eu datblygu ar y cyd yn llwyddiannus?

Mae'n bwysig bod pob athro ac ymarferydd yn cael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn. Mae'r pwyslais ar ddysgu proffesiynol a'r gwaith o ddatblygu'r maes hwnnw yn hollbwysig wrth inni gynllunio ein cwricwlwm a'n trefniadau asesu newydd, a hynny er mwyn sefydlu gweithlu addysg o statws uchel.

Bydd yn hanfodol sefydlu dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, gan ddechrau ag addysg gychwynnol athrawon, a chan roi sylw i'r llwybr gyrfa proffesiynol cyfan. Bydd angen gwreiddio hyn mewn system ysgolion sy'n gwella'i hun, wrth i'r ymarferydd wneud ymchwil ar sail tystiolaeth. Y nod yw datblygu gweithlu proffesiynol a chanddo'r wybodaeth

a'r sgiliau angenrheidiol i ddatblygu potensial llawn pob dysgwr. Ein nod yn y pen draw yw gwreiddio diwylliant dysgu proffesiynol drwy'r holl system, gan gynyddu capasiti ym mhob ysgol yng Nghymru i alluogi pob athro i arwain ar ei ddysgu proffesiynol ei hun.

Er mwyn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu datblygu gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, mae rhwydwaith o Ysgolion Arloesi yn arwain y gwaith o ddatblygu dull cenedlaethol o gyflwyno Dysgu Proffesiynol. Bydd y dull hwn yn cyd-fynd â cherrig milltir yn natblygiad gyrfa gweithwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd dysgu proffesiynol o'r ansawdd orau ym mhob rhan o'u gyrfa.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Ysgolion Arloesi ym maes dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio ar ganfod yr anghenion addysgegol a'r anghenion o ran arweinyddiaeth er mwyn datblygu'r rheini yn barod am y cwricwlwm newydd. Mae'r blaenoriaethau cychwynnol y mae'r ymarferwyr wedi'u nodi yn cynnwys cymhwysedd digidol, datblygu arweinyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu. Mae'r consortia rhanbarthol wrthi'n datblygu cynlluniau i sicrhau bod y meysydd blaenoriaeth hyn yn cael sylw.

Mae'r Ysgolion Arloesi hefyd yn cydweithio i dreialu'r Safonau Athrawon Proffesiynol; datblygu'r dull dysgu proffesiynol ar gyfer Cymhwysedd Digidol; a law yn llaw â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Pa gamau y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i sicrhau na fydd pobl ifanc sydd yn y system addysg bresennol dan anfantais oherwydd eu bod yn cael eu dal rhwng dwy fersiwn dra gwahanol o'r cwricwlwm.

Yn *Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes* roeddem yn cydnabod y gall rhai ysgolion fod yn barod i ddechrau defnyddio fframwaith y cwricwlwm newydd yn gynt na rhai eraill. Mae'r amser sydd ar gael rhwng cyflwyno'r fframwaith a gorfod ei ddefnyddio yn sail i ddysgu ac addysgu yn rhoi cyfle i ysgolion baratoi a lliniaru'r risg rydych chi'n cyfeirio ati.

Wrth gynllunio'r Meysydd Dysgu ac Addysgu, byddwn yn gweithio gydag Ysgolion Arloesi a Cymwysterau Cymru i adlewyrchu ar yr hyn y gallai'r newidiadau hyn ei olygu i ddysgwyr sydd eisoes wedi cychwyn ar gwrs astudio sy'n arwain at gymhwyster.

Efallai y bydd y pwyllgor yn ymwybodol fod gan reoleiddwyr cymwysterau ffordd sydd wedi hen ennill ei phlwyf o gynnal sefydlogrwydd yn neilliannau cymwysterau pan gyflwynir TGAU neu Safon Uwch newydd. Yr enw a roddir ar hyn yw 'deilliannau cymaradwy', a'r nod pennaf yw sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n sefyll cymwysterau newydd mewn sefyllfa fanteisiol nac anfanteisiol o'u cymharu â'r rheini sy'n sefyll yr hen gymhwyster. Disgwylwn y bydd dull o'r fath yn cael ei ddefnyddio pan roddir y cymwysterau newydd.

Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn penderfynu beth y dylid ei gynnwys mewn deddfwriaeth. A ydych wedi ystyried beth fydd y cydbwysedd priodol? Pryd fydd angen penderfynu ynglŷn â hyn??

Bydd ein dull o ddeddfu wedi'i seilio ar yr egwyddorion sy'n sail i *Dyfodol Llwyddiannus*, y polisi sy'n deillio o waith yr Ysgolion Arloesi, gan gynnwys arferion da o wledydd eraill, a pholisïau Llywodraeth Cymru ar reol gyfreithiol a chyfraith dda. Rydym wedi dechrau edrych ar rai pethau deddfwriaethol er mwyn deall y sefyllfa bresennol a pha mor berthnasol ydynt i'r diwygiadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i'r Ysgolion Arloesi fwrw yn eu blaenau â gwaith ar y gwahanol elfennau.

Ar hyn o bryd, mae'n anodd rhagweld beth fydd canlyniad gwaith yr Ysgolion Arloesi ac nid wyf yn barod i ddyfalu beth fydd eu canfyddiadau wrth ymateb i'r Pwyllgor. Serch hynny, mae'r cyfeiriad a roddodd yr Athro Donaldson inni yn argymhell deddfu'n ysgafn, gan ffafrio rhoi canllawiau lle mae modd yn sail i addysgu. Mae hyn yn newid mawr o'r cyfeiriad pendant a'r rhagnodi amlwg a geir drwy fodel y cwricwlwm cenedlaethol presennol.

Roedd tystiolaeth yr Athro Donaldson i'r Pwyllgor yn dangos y tensiwn a all fodoli rhwng rhoi rhyddid i ymarferwyr ddefnyddio'u proffesiynoldeb a'u creadigrwydd i ateb anghenion pob dysgwr ar y naill law, a'r angen ar y llaw arall, ac ar adegau eraill, i roi sicrwydd drwy gyfraith. Mae'r model a geir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, a'r un y byddem am ei ddilyn, wedi'i seilio ar egwyddor sybsidiaredd. Bydd symud i system o'r fath yn golygu y bydd yn rhaid i ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ehangach newid eu hagwedd. Serch hynny, nid oes dwywaith fod y sector wedi dangos brwdfrydedd yn hyn o beth, a gobeithiaf y bydd ein cynlluniau deddfwriaethol yn bodloni'r sector.

Byddwn yn dechrau profi'r cynlluniau deddfwriaethol hynny gyda'r Ysgolion Arloesi a rhanddeiliaid wrth i'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm fynd rhagddo.

Pa ddylanwad y mae canlyniadau PISA Cymru yn ei gael ar y gwaith o ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm newydd a faint o effaith a gânt wrth benderfynu ar hyn y dylai plant a phobl ifanc fod yn ei ddysgu yn yr ysgol?

Roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, *Improving Schools in Wales*, yn casglu bod y trefniadau presennol ar gyfer asesu a gwerthuso yn anfoddhaol, ac mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn cyfeirio sawl tro at yr adroddiad hwnnw. Mae'n cydnabod canfyddiadau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd, ac yn dweud bod '*perfformiad siomedig Cymru yn y naill ar ôl y llall o arolygon PISA wedi bod ac yn parhau'n ysgogydd pwysig dros newid*' (t.10).

Mae dibenion y cwricwlwm newydd wedi'u pennu yn nhermau'r deilliannau cadarnhaol yr ydym am eu sicrhau i blant a phobl ifanc wrth gael addysg. Mae'n ceisio cyflawni mwy na dim ond cynnydd yn sgoriau PISA.

Er mwyn sicrhau'r deilliannau cadarnhaol hyn, fodd bynnag, bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn rhoi pwyslais amlwg ar gymhwyso sgiliau i gyd-destun bywyd bob dydd, yn unol ag argymhelliad *Dyfodol Llwyddiannus*. Bydd hyn yn cyd-fynd â PISA, sydd hefyd yn profi pa mor dda y mae myfyrwyr yn gallu defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u dysgu yn yr ysgol wrth wynebu heriau mewn bywyd go iawn.

Wrth wneud hyn, disgwyliaf y bydd cyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael effaith gadarnhaol a hirdymor ar ein deilliannau PISA.

O ran diwygio'r cwricwlwm, mae'r canfyddiadau cynnar o ymweliad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd ym mis Tachwedd wedi nodi bod sawl peth wedi'i sefydlu bellach sy'n rhoi Cymry ar drywydd mwy cadarnhaol. Gwyddom o dystiolaeth ryngwladol bod angen amser i ddiwygiadau mawr dreiddio drwy'r system a bod y gwledydd hynny sydd wedi glynu wrthi wedi gweld ffrwyth y llafur hwnnw ryw bymtheng mlynedd yn ddiweddarach.

Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau bod arweiniad a chyfeiriad strategol cryf yn cael ei gynnig ar gyfer datblygu a gweithredu argymhellion Donaldson?

Rwyf wedi pwysleisio mai diwygio addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol. Nod y genhadaeth hon yw creu system addysg gyda'r gorau yn y byd, er mwyn galluogi ein plant a'n pobl ifanc i ffynnu yng nghanol heriau a chyfleoedd yr unfed ganrif ar hugain.

Gyda'n gilydd, credaf ein bod yn barod am yr her hon, ac mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd wedi cadarnhau imi yn ddiweddar ein bod ar y trywydd iawn a bod angen inni lynu wrth y llwybr hwn. Yn unol â hyn, byddaf yn adnewyddu ein cynllun cyflawni strategol, *Cymwys am Oes*, gyda'r nod o gyhoeddi dogfen ddiwygiedig yn y gwanwyn. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod popeth a wnawn yn y maes addysg yn cyd-fynd â'n hagenda ddiwygio, ac yn gefn i honno.

Dros y misoedd nesaf, byddaf yn cadarnhau ac yn ailbwysleisio, ar y cyd â'n holl bartneriaid cyflawni, y ffaith bod gennym oll gyfraniad i'w wneud wrth arwain y broses o roi'r weledigaeth hon ar waith – gweledigaeth a roddwyd gan yr Athro Donaldson ac un yr ydym oll wedi cytuno arni ac yn ymrwymedig iddi.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education